OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1064

# Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018

## RHAN 3

## Rheolaethau mewnol yr UE ar symud

### Hysbysu am lanio planhigion penodol ar gyfer eu plannu

**19.**—(1) Rhaid i berson sy'n dod â'r planhigion a ganlyn i Gymru hysbysu arolygydd yn ysgrifenedig am y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) cyn y dyddiad y maent yn cyrraedd Cymru, neu'n ddim hwyrach na phedwar diwrnod ar ôl hynny—

(a) planhigion *Castanea* Mill., *Fraxinus* L., *Pinus* L., *Platanus* L., *Prunus* L., *Quercus* L. neu *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu mewn Aelod-wladwriaeth arall; neu

(b) planhigion *Castanea* Mill., *Fraxinus* L., *Pinus* L., *Platanus* L., *Prunus* L., *Quercus* L. neu *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu yn y Swistir ac nad yw gofynion erthygl 6 yn gymwys iddynt.

(2) Y materion yw—

(a) y dyddiad y bwriedir iddynt gyrraedd neu, os ydynt wedi cyrraedd Cymru, y dyddiad y gwnaethant gyrraedd Cymru gyntaf;

(b) eu cyrchfan arfaethedig, neu os ydynt wedi cyrraedd eu cyrchfan arfaethedig yng Nghymru, eu lleoliad presennol;

(c) eu genws, eu rhywogaeth a'u nifer;

(d) rhif adnabod cyflenwr y planhigion; ac

(e) y wlad y maent wedi eu traddodi ohoni, neu y maent i'w traddodi iddi.

(3) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i erthygl 22.